# Cyngor Bro Morgannwg
## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2025

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Bro Morgannwg. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 54 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Ceidwadwyr 13
- Annibynnol 4
- Llafur 25
- Plaid Cymru 8
- Llanilltud yn Gyntaf Annibynnol 4

Gwariodd y Cyngor £348 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2023-24[2].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â praeseptau, ardollau a llog dyled.

[2] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2023-24

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £74 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn cyfateb i 21% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg 4% o'r 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru, dyma'r seithfed isaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru[5].

Amcanestynnir y bydd poblogaeth Cyngor Bro Morgannwg yn cynyddu 8% rhwng 2024 a 2043, o 137,200 i 148,000, gan gynnwys cynnydd o 1% a ragwelir yn nifer y plant, cynnydd o 3% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 27% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[6].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i fodloni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwiliad o Gyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol defnyddiol fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[4] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2023-24

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Allbwn Uwch Is'. Ffynhonnell: Stats Wales

[6] Ffynhonnell: Stats Wales, Amcanestyniadau Poblogaeth

# Yr hyn a ddarganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon 2023-24 Cyngor Sir Bro Morgannwg

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Mae ein canfyddiadau a'n casgliadau wedi'u crynhoi isod.**

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2023-24:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 29 Mehefin 2024. Roedd hyn cyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2024 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda.
- ar ôl cymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd gan y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2024, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg heb amod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 6 Rhagfyr 2024. Roedd hyn ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru sef 30 Tachwedd 2024.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â'r Cod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Roeddent yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth o'r Awdurdod.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod sy'n deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2024.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae ganddo hefyd gyfrifoldeb am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Er bod rhai agweddau ar y gwaith hwn yn parhau i fod yn anghyflawn, nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi'i gwblhau.

## Adolygiad o sicrwydd ac asesu risg

Fe wnaethom adolygu’r trefniadau y mae’r Cyngor wedi’u rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o’i adnoddau. Mae ein hasesiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio ein cynllunio gwaith ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## Comisiynu

Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Canfuom y gall y Cyngor ddarparu enghreifftiau lle mae ganddo drefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian a chymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ond ni all ddangos bod trefniadau tebyg yn bodoli ar draws pob maes gwasanaeth. Heb y sicrwydd hwnnw, mae risg nad yw’r Cyngor yn sicrhau gwerth am arian yn gyson trwy ei wasanaethau comisiynu.

## Gofal heb ei drefnu

Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n brydlon allan o’r ysbyty.

Yn gyffredinol, gwelsom, er bod nifer y cleifion sy’n profi oedi wrth gael eu rhyddhau yn parhau i fod yn bryder, bu gwelliannau nodedig o ran trosglwyddo o ambiwlans a pherfformiad amser aros adran achosion brys yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae llif cleifion o fewn ysbytai yn effeithio’n negyddol ar lwybrau gofal eraill, a bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gynnal eu hymrwymiad ar y cyd i sicrhau’r gwelliannau sy’n angenrheidiol.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2024, gwnaethom adolygu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan gynnwys pwyslais ar y camau gweithredu, y cynlluniau a’r trefniadau i bontio bylchau cyllido a mynd i’r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuom, er bod trefniadau ar waith ar gyfer y tymor byr i’r tymor canolig, nad oes gan y Cyngor gynllun tymor hir ac asesiadau rheolaidd o effaith penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

## Adolygiad o Osod Amcanion Llesiant

Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant. Canfuom fod y Fro wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio gosodiad ei amcanion llesiant gan gynnwys defnydd effeithiol o ddata, alinio â chynlluniau ariannol a dull cryf o gyfranogiad.

## Adroddiadau a chynhyrchion cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2024

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Fe wnaethom gyhoeddi'r adroddiadau canlynol yn 2024 a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor, a gellir dod o hyd iddynt ar ein gwefan.

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Rhagfyr 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol sydd bellach yn cynnwys data o gyfrifon drafft 2023-24 | Rhagfyr 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23 | Hydref 2024 |
| Teithio llesol (adroddiad ac offeryn data) | Medi 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Tai fforddiadwy | Medi 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
| --- | --- |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd | Ionawr 2024 |

## Gwaith arfaethedig ar gyfer 2024-25

Fe wnaethom hefyd edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys pwyslais ar falansau ysgolion
- Adolygiad o gwynion
- Asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dal i gyfrif gan y Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.